



Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership
Legal and Risk Services



Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Y GIG yn erbyn Trais

NHS Anti-Violence Collaborative



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MYFYRDODAU AR LANSIO YMATEBION GORFODOL I DRAIS YM MAES GOFAL IECHYD

21 Tachwedd, 2018

Mynychodd 90 o gynrychiolwyr o'r GIG, yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Llywodraeth Cymru, Gofal Sylfaenol a chynrychiolwyr o'r undeb y digwyddiad yng Ngwesty'r Metropole yn Llandrindod.



Dechreuodd y digwyddiad gyda'r 'seremoni arwyddo' lle llofnodwyd Yr Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd '



Llofnodwyr o'r chwith i'r dde: ;

Barry Hughes, Prif Erlynydd y Goron
Gwasanaeth Erlyn y Goron

Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr, GIG Cymru

Rhiannon Kirk, Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Heddlu Gwent

Matt Jukes, Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru

Shane Williams, Ditectif Brif Uwch-arolygydd, Heddlu Dyfed Powys



Yn anffodus, roedd Karl Foulkes, Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru (yn y llun ar y chwith) newydd ddechrau yn ei swydd ac yn methu mynychu'r digwyddiad ac felly gwnaed trefniadau iddo lofnodi'r cytundeb ar ôl ei lansio.

Noddwyd y digwyddiad gan Lywodraeth Cymru ac agorwyd ef gan Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru



NHS Anti Violence Collabo...
@NHSAntiViolence

Follow

@nhsgoodalla addresses attendees 'The Obligatory responses to violence in healthcare' document comprehensively revises existing measures to facilitate joint working between the #Police #NHSWales @cpsuk ' #EmpowermentThroughPrevention



2:09 am - 21 Nov 2018

Vaughan Gething AM, Vaughan Gething, BMA Cymru Wales and UNISON Cymru/Wales



Mae'r Grŵp Cydweithredol dros Atal Trais yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth barhaus ac mae wrth ei fodd y bydd y cytundeb yn sicrhau statws cylchlythyr Iechyd Cymru.

Soniodd Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, am ei gefnogaeth hefyd i'r fenter drwy neges fideo a gafodd ei chwarae i'r gynulleidfa yn ystod y digwyddiad.



Darren Davies
@DarrenMDavies

Follow

@wgcs_health gives his support to the 'Obligatory responses to violence in healthcare' document agreement undertaken by @NHSAntiViolence



Message from Vaughan Gething AM, Cabinet Secretary for...

A short video message from the Welsh Cabinet Secretary for Health & Social Services, Welsh Government, to address attendees at the launch of the 'Obligatory ...
youtube.com

5:44 am - 21 Nov 2018

5 Retweets 9 Likes



↻ 5

♥ 9

“Mae pob un ohonom yn haeddu teimlo’n ddiogel a bod pobl yn ein cefnogi yn y gwaith, ac ni ddylai ein staff gweithgar deimlo’n ofnus nac yn nerfus am fynd i’r gwaith. *Nid braint mo hwn; hawl sylfaenol ydyw. Gyda hyn mewn golwg, mae teimlad cryf bod gan staff le blaenllaw yng nghytundeb ‘Ymatebion Gorfodol i Drais ym maes Gofal Iechyd’. Hoffwn gymryd y cyfle hwn hefyd i ddweud diolch wrth y Grŵp Cydweithredol dros Atal Trais am eu hymdrech glodwiw yn dwyn y cytundeb hwn i olau dydd.*” - **Vaughan Gething**

Anerchodd Matt Jukes, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, y gynulleidfa ar ran pedwar Gwasanaeth Heddlu Cymru



Matt Jukes
@CCMattJukes

Follow

@NHSAntiViolence Chair, Andrew Hynes opens important day to relaunch commitments to preventing & tackling violence in healthcare

@NWPolice @DyfedPowys @gwentpolice @swpolice all proud & determined signatories



"Mae buddsoddiad mewn atal yn bwysig"

"Fideo a wisgir ar y corff yw'r buddsoddiad gorau rydym wedi'i wneud."

mae fideo a wisgir ar y corff yn rhoi "synnwyr o hyder a diogelwch i'r swyddogion rheng flaen"

- Matt Jukes

Siaradodd Barry Hughes, Prif Erlynydd y Goron, ar ran Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru



"Mae'n rhaid i ni i gyd weithio gyda'n gilydd i sicrhau diogelwch staff y GIG"

- **Barry Hughes**

Bu lansiad y cytundeb yn cyd-ddigwydd â gweithredu **Deddf Ymosodiadau ar Weithwyr Brys (Troseddau) 2018.**



Barry Hughes, Prif Erlynydd y Goron, yn sicrhau'r gynulleidfa bod Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi newid ei ymagwedd at ymosodiadau ar weithwyr brys yng ngoleuni'r drosedd newydd a grëwyd gan y Ddeddf.

Mae'n rhagweld y "bydd mwy o ddeddfrydu sylweddol yn y pen draw"


Hoffai'r Grŵp Cydweithredol dros Atal Trais estyn diolch arbennig i Rose Davies, Stefan Cartwright, Anna Sussex a Nathan Holman a siaradodd o'r galon am eu profiadau o drais.



Lisa Trounce
@LTrounce

Follow

Anna Sussex, Professional Lead for Welsh ED Frequent Attenders Network, sharing experiences of V&A, the positives of de-escalation, plus providing an overview of the National frequent attenders network
[@NHSAntiViolence](#)
[#EmpowermentThroughPrevention](#)
[@AneurinBevanUHB](#) [#TeamED](#)



4:51 am - 21 Nov 2018

10 Retweets 24 Likes



NHS Anti Violence Collabo...
@NHSAntiViolence

Follow

Emergency Nurse Practitioner Rose Davies gives attendees a fascinating but harrowing account of her experiences of violence & aggression within [#NHSWales](#) 'Not reporting incidents is not an option. People must be held accountable for their actions'



3:16 am - 21 Nov 2018

10 Retweets 14 Likes



1 10 14



Claire Vaughan
@ClaireVWOOD

Follow

Important to see [@NathanGmbunion](#) on the stage here this afternoon sharing another emotive story of serious abuse against a paramedic from another ambulance service recently shared with him [@NHSAntiViolence](#)
[#TakeCareofThoseThatCare](#)
[#EmpowermentThroughPrevention](#)



6:36 am - 21 Nov 2018

Mae Nathan Holman, Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, yn galw am rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â 'thynnu sylw' rhwng yr Heddlu a Gwasanaeth Ambiwylans Cymru.

Pwysleisiodd Michael Brown o'r Coleg Plismona y dylid canolbwyntio ar 'mens rea', nid ar 'alluedd' wrth ymchwilio i weithredoedd troseddol.



NHS Anti Violence Collabo...
@NHSAntiViolence

Follow

Michael Brown, Chief Inspector from @CollegeofPolice discusses legislation from the viewpoint of #mentalhealth and what staff must be aware of when dealing with violent & aggressive behaviour #EmpowermentThroughPrevention



6:07 am - 21 Nov 2018

15 Retweets 25 Likes



PCC Gogledd Cymru, South Wales Police, HeddluDPPolice and 5 others

1 15 25

Erlynir pobl
sydd â diffyg
'galluedd' -
Michael Brown

Mae **Carl Ball**,
Rheolwr Achos,
yn rhoi cipolwg
gwyb ar fywyd
Rheolwr Achos
GIG a sut mae'r
rôl yn hanfodol i
lwyddiant y
cytundeb



POSTERI

Cafodd y posteri yr ydym wedi'u cynhyrchu i hyrwyddo'r cytundeb ac i annog pobl i adrodd am drais dderbyniad da iawn yn y digwyddiad

Mae'r posteri yn hyrwyddo negeseuon trawiadol sydd wedi'u hanelu at droseddwyr, dioddefwyr a staff

Mae copïau o'r posteri ar gael yn y Gymraeg ac yn y Saesneg drwy

<http://www.nwssp.wales.nhs.uk/page/97264>





I ddarganfod mwy am waith y Grŵp Cydweithredol dros Atal Trais, dilynwch ni ar Twitter ac edrychwch ar ein tudalen we

Home > NHS Wales Anti Violence Collaborative

NHS Wales Anti Violence Collaborative

This page in Welsh/Y dudalen hon yn Gymraeg

Grŵp Cydweithredol Gwrth-drais y GIG



<http://www.nwssp.wales.nhs.uk/nhs-wales-anti-violence-cydweithredol>



NHS Anti Violence Collaborative

@NHSAntiViolence

Yr GIG yn erbyn Trais /All-Wales Collaborative to reduce violence and aggression against [#NHSWales](#) staff [#GrymusoTrwyAtal](#) [#EmpowermentThroughPrevention](#)

📍 Wales, United Kingdom

GWAITH POTENSIAL YN Y DYFODOL AR GYFER Y GRŴP CYDWEITHREDOL DROS ATAL TRAIS



Cynigiwyd y syniadau dilynol gan y cynrychiolwyr yn ystod y digwyddiad ail-lansio



AMCANION AR GYFER RHOI CYHOEDDUSRWYDD I'R CYTUNDEB

- Rheolwr Achos y GIG a Staff Iechyd a Diogelwch y GIG i hyrwyddo'r cytundeb gyda staff rheng flaen yr heddlu a'r GIG gan gynnwys gweithwyr canolfan alwadau 101 (yr heddlu), Gwasanaeth Ambiwylans Cymru a chanolfannau galw Galw Iechyd Cymru.
- Cadwch y cytundeb yn fyw ac yn agored i'r cyhoedd trwy ddiweddarau ffynonellau newyddion ar-lein prif ffrwd,

papurau newydd a chyfryngau cymdeithasol yn dilyn erlyniadau troseddol mewn achosion nodedig

- Mae'n bwysig bod cyfarwyddwyr a rheolwyr canol y GIG yn ymwybodol o'r cytundeb ac yn cymryd camau i raeadru gwybodaeth o'r brig i lawr i'r staff rheng flaen. (e.e. cyhoeddodd un Bwrdd Iechyd Argymhelliad Sefyllfa, Cefndir, Asesiad (SBAR) i'r Bwrdd)
- Dylid rhoi cyhoeddusrwydd i'r cytundeb hefyd i fyfyrwyr meddygol a nyrsio yn ystod eu haddysg. Cysylltwch ag **Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)**. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn arwain y gwaith o addysgu, hyfforddi, datblygu a siapio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru.
- Andrew Hynes, Cadeirydd y Grŵp Cydweithredol dros Atal Trais, i gwrdd â phob swyddog cyfathrebu yn y Byrddau Iechyd ac yn Ymddiriedolaethau'r GIG
- Caiff y cytundeb ei gyhoeddi mewn cylchlythyrau'r GIG a'r undeb
- Andrew Hynes, Cadeirydd y Grŵp Cydweithredol dros Atal Trais, i fynychu fforymau Partneriaeth y GIG

MEYSYDD I'W HYSTYRIED YN Y DYFODOL GAN Y GRŴP CYDWEITHREDOL DROS ATAL TRAIS

- Rhoi statws cylch iechyd Cymru i'r ymatebion gorfodol i drais mewn gofal iechyd
- Hwyluso'r adroddiad blynyddol i fonitro llwyddiant yr ymatebion gorfodol i drais mewn gofal iechyd
- Deisebu llywodraeth ganolog am gyllid wedi'i neilltuo ar gyfer mentrau trais ac ymddygiad ymosodol gan gynnwys rheolwr achos dynodedig sy'n hanfodol i bob bwrdd iechyd
- Ystyried creu dolen gyda gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth tân, y rheiny sy'n mynychu ymatebion gorfodol i drais mewn gofal iechyd yn aml
- Gwell gweithio rhwng rheolwyr achos y GIG ac Iechyd a Diogelwch i atal datgysylltu ac i ffurfio dull cydgysylltiedig o ymateb gorfodol i drais mewn gofal iechyd
- Canolbwyntio ar atal trais bwriadol rhag digwydd
- Ymdopi a delio ag ymosodiadau geiriol fel rhwystr i ymosodiadau corfforol
- Cofleidio technoleg, fideos a wisgir ar y corff a theledu cylch cyfyng mewn ardaloedd clinigol
- Gwella'r ffordd mae gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng y gwahanol fyrddau iechyd, y GIG a'r heddlu;
 - Arweiniad ar wybodaeth sy'n cael ei rhannu gan yr Heddlu a Rheolwr Achos y GIG mewn achosion penodol; yn aml dywedir wrth reolwyr achos y GIG mai dim ond i'r dioddefwr y gellir rhannu gwybodaeth (nod cyfreithlon o dan adran 115 deddf trosedd ac anhrefn 1998)
 - Gwella'r cysylltiadau cyfathrebu rhwng y systemau galw brys (tân, heddlu, ambiwlans) - oes gwerth i bob sefydliad ddefnyddio'r un system sylfaenol?
 - Fel arall, ystafelloedd rheoli ar y cyd - heddlu a Gwasanaeth Ambiwylans Cymru
 - Dynwared mecanweithiau a ddefnyddir gan y sector manwerthu i rannu gwybodaeth ar 'bobl dan amheuaeth', mae hyn yn cynnwys data personol. Er enghraifft, enw ap Gloucester City Safe yw 'disc' (<https://www.disc-net.org/gloucester>) Rheolir y cynllun gan gyn-swyddog yr heddlu Am ragor o wybodaeth <http://eprints.glos.ac.uk/4616/7/UoG%20report%20on%20GCS%202017.pdf>
 - Galw am ymateb aml-asantiaeth - rhannu gwybodaeth rhwng y GIG, Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu, practis meddyg teulu, swyddfeydd cyswllt iechyd meddyliol h.y. 'tynnu sylw'
 - Symleiddio'r prosesau tynnu sylw; rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â 'thynnu sylw' rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Ambiwylans Cymru Atgofiodd Nathan Holman (Gwasanaeth

Ambiwylans Cymru) y gynulleidfa ei bod yn bwysig tynnu sylw at enw'r unigolyn yn hytrach na'r cyfeiriad

- Ystyried cael Hwb (arsyllfa) o bwyntiau cyswllt sengl o'r GIG gyda'r heddlu i wella strategaethau atal – rhannu gwybodaeth, hyfforddiant, proffiliau bwrdd gwaith lleol.
- Creu rhwydwaith o gefnogaeth gan gymheiriaid i staff yr effeithir arnynt gan drais ac ymddygiad ymosodol a / neu a alwyd i fynychu'r llys. Er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn cefnogaeth yn dilyn digwyddiad, gellid sefydlu cynllun i greu llwybr ar gyfer ymyrraeth ôl-ddigwyddiad, sef 'system gyfaill' yn dilyn digwyddiad treisgar. Mae'r rheolwr achos yn cyflawni'r rôl hon mewn rhai byrddau iechyd; fodd bynnag, gallai cyflogeion unigol mewn gwahanol gyfarwyddiaethau gyflawni'r rôl hon. Gallai cyflogeion y GIG wirfoddoli i ddarparu gofal bugeiliol a chefnogaeth i'w cyfoedion ar ôl iddynt ddioddef digwyddiad trawmatig yn y gwaith, h.y. cwrdd â'r dioddefwr yn fuan ar ôl y digwyddiad i weld a yw'n iawn. Mae'n bosibl y bydd y rheiny sydd wedi dioddef ymddygiad ymosodol yn y gorffennol yn dymuno gwirfoddoli er mwyn helpu pobl eraill sydd wedi dioddef. Trwy'r cynllun hwn, gallai dioddefwyr gael eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau iechyd galwedigaethol, lles a chwnsela.
- Gwellu adrodd am ddigwyddiadau;
 - Hwyluso adrodd am ddigwyddiadau - creu apiau ffôn clyfar sy'n gysylltiedig â Datix
 - Gallai ffurflenni adrodd digwyddiadau Datix gael eu haddasu fel bod sbardun i awdur yr adroddiad gyfeirio'r digwyddiad i'r rheolwr achos a / neu'r heddlu (gallai hyn fod yn orfodol). Dylid gallu gweld ymyrraethau gan yr heddlu a'r gweithiwr achos ar yr adroddiad Datix.
 - Gwneud adrodd Datix yn orfodol
 - Mynd i'r afael â dad-sensiteiddio staff y GIG - addysgu staff na ddylid goddef trais a'u hannog i adrodd am ddigwyddiadau ar Datix ac i'r heddlu
 - Gwneud dioddefwyr yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth newydd (Ymosodiadau ar Weithwyr Brys (Troseddau) 2018) sy'n cynyddu dedfrydau yn effeithiol ac yn gosod dirwyon gan y gallai hyn annog pobl i adrodd am ddigwyddiadau i'r heddlu
- Edrych ar y broses i'r heddlu ddod â chleifion iechyd meddwl i 'le diogel' (Adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983. (<https://mentalhealthcop.wordpress.com/2017/11/25/paca-what-is-a-place-of-safety/>))
- Polisiâu lle mae'r heddlu yn mynd â phobl i'r Adran Achosion Brys sy'n cyflymu'r broses er mwyn iddynt fynd trwy'r adran yn gyflym ac, o bosibl, leihau'r risg gan gleifion anwadal.
- Blaenoriaethu staff gwasanaethau brys eraill ar ddyletswydd (Heddlu) drwy'r Adran Achosion Brys pan yn ddarostyngedig i ymosodiad neu anaf
- Gweithredu s119 / 120 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008

- 'awdurdod i gael gwared ar' unigolion sy'n achosi niwsans neu'n aflonyddu ar eiddo'r GIG. Nid yw hyn yn cael ei weithredu yng Nghymru. Byddai'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi gorchymyn cychwyn er mwyn i'r ddarpariaeth hon fod yn weithredol yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru eisiau cyhoeddi canllawiau i gyd-fynd â'r gorchymyn. **Beth yw'r sefyllfa**

bresennol? (<http://senedd.assembly.wales/documents/s71186/Research%20Brief.pdf>)

- Tagio troseddau fel 'trais yn erbyn y GIG' - *Cyn gynted ag y bydd rhywun o'r GIG yn dweud eu bod yn adrodd ynghylch trais ac ymddygiad ymosodol, rydym wedi creu tag er mwyn i ni allu adrodd arnynt yn ddiweddarach ac edrych ar batrymau a thueddiadau.*
- Gwahodd yr ambiwlans a'r gwasanaeth tân i mewn i ystafell reoli'r heddlu (menter yn Heddlu Gwent)
- Dylid dal y Bwrdd Iechyd yn atebol - penodi Hyrwyddwr Bwrdd

SYNIADAU AM OFYNION HYFFORDDIANT POSIBL

- Mewn llawer o achosion mae'r person yr ymosodwyd arno wedi cysylltu â chynrychiolwyr undeb. Gallai fod yn fuddiol i gynrychiolwyr undeb gael hyfforddiant am y cytundeb ymatebion gorfodol i'w helpu i gefnogi dioddefwyr.
- Addysgu'r staff gofal iechyd a'r heddlu y dylid rhagdybio bod gan berson gapasiti hyd yn oed mewn lleoliadau iechyd meddwl.
- Dylai ymatebion gorfodol i drais mewn gofal iechyd fod yn rhan o'r hyfforddiant e-ddysgu gorfodol h.y. mae'n rhaid i bob cyflogai yn GIG Cymru astudio modiwl e-ddysgu ar drais ac ymddygiad ymosodol. Dylai'r sesiwn hyfforddi esbonio'r ymatebion gorfodol i drais mewn gofal iechyd
- Dylid cynnwys ymatebion gorfodol i drais mewn gofal iechyd yn y diwrnod hyfforddi sefydlu corfforaethol ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru ac yn y sesiynau sefydlu ar gyfer yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Dylid targedu hyfforddiant wedi'i deilwra parthed ymatebion gorfodol i drais mewn gofal iechyd i'r ardaloedd risg uchel / amgylcheddau (hyfforddiant penodol, nid dull cyffredinol)
- Rhannu'r cyflwyniad hyfforddi i'r heddlu gyda'r byrddau iechyd yn lleol ar gyfer y grŵp cydweithredol
- Yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i weithio mewn partneriaeth i greu model trais ac ymddygiad ymosodol i addysgu'r staff i gyd am sut i ddelio â digwyddiadau
- Yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i esbonio'r rhesymau dros eu penderfyniadau i staff y GIG er mwyn creu dealltwriaeth e.e. ymwelodd yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron â ward iechyd meddwl yn Sir Gaerfyrddin a rhoddont gyfarwyddyd ar y weithdrefn erlyn i staff oedd wedi dioddef trais ac oedd wedi'u siomi - helpodd hyn i adeiladu perthynas rhyngddynt ac i addysgu'r staff.



- Yr heddlu i dderbyn hyfforddiant ar Iechyd Meddwl
- Mwy o waith dan arweiniad ynghylch dogfennaeth nyrsio / feddygol i ddarparu llwybrau i gleifion ac asesiad ar gyfer ymddygiad sy'n heriol yn glinigol

SICRWYDD I'R DYFODOL

- Adroddiad Blynyddol
- Sut mae penderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cael ei fwydo yn ôl i'r dioddefwr?



Cysylltwch â Hannah.Salerno@wales.nhs.uk